**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (CYLCHFAN CORYTON, CAERDYDD I GYLCHFAN ABERCYNON, RHONDDA CYNON TAF) (DILEU CYFYNGIADAU A THERFYN CYFLYMDER 40 MYA) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 82(2), 83(1), 84(1)(a) a 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd dileu cyfyngiadau er mwyn adfer y terfyn cyflymder cenedlaethol ar y darnau o gefnffordd yr A470 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn a gosod terfyn cyflymder 40 mya ar y darn o gefnffordd yr A470 a ddisgrifir yn Atodlen 2.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 11 Ebrill 2025 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y plan a'r Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Pontypridd, Gas Road, Taff Street, Pontypridd CF37 4TH neu gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2283456.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 2 Mai 2025.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych am i ddata personol gael eu hanfon ymlaen at drydydd parti, dylech ddatgan hyn wrth gyflwyno eich gohebiaeth a bydd Llywodraeth Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

**THE A470 TRUNK ROAD (CORYTON ROUNDABOUT, CARDIFF TO ABERCYNON ROUNDABOUT, RHONDDA CYNON TAF) (DERESTRICTION AND 40 MPH SPEED LIMIT) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 82(2), 83(1), 84(1)(a) and 84(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to derestrict to the national speed limit the lengths of the A470 trunk road described in Schedule 1 to this Notice and to impose a 40 mph speed limit on the length of the A470 trunk road described in Schedule 2.

During a period of 21 days from 11 April 2025, a copy of the proposed Order, plan and the Statement of Reasons for making the Order may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Pontypridd Library, 1 Gas Road, Taff Street, Pontypridd CF37 4TH, or can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or obtained, free of charge, from the address below quoting reference number qA2283456.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent by e-mail to TransportOrdersBranch@gov.wales or in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 2 May 2025.

Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the consultation process, we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state this when submitting your correspondence and the Welsh Government will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed. If there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**ATODLEN 1**
**Dileu cyfyngiadau**

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gylchfan Coryton, Caerdydd hyd at bwynt 490 o fetrau i'r de o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Glan-bad, Pontypridd.

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 895 o fetrau i'r gogledd o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd hyd at bwynt 350 o fetrau i'r de o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Coryton sy'n ymestyn o bwynt 120 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Coryton hyd at ei thrwyniad â phrif gerbytffordd tua'r gogledd yr A470.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf sy'n ymestyn o'i thrwyniad â phrif gerbytffordd tua'r gogledd yr A470 hyd at bwynt 174 o fetrau i'r de o'r trwyniad hwnnw.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Nantgarw.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd Navigation, Parc Navigation, Abercynon.

Y darn o gerbytffordd tua'r de'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 35 o fetrau i'r de o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon hyd at bwynt 450 o fetrau i'r gogledd o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd.

**SCHEDULE 1**
**Derestriction**

The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from the physical nosing of the northbound entry slip road at Coryton Roundabout, Cardiff to a point 490 metres south of the nosing of the northbound exit slip road at Upper Boat Interchange, Pontypridd.

The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from a point 895 metres north of the nosing of the northbound entry slip road at Bridge Street Interchange, Pontypridd to a point 350 metres south of its junction with the main circulatory carriageway Abercynon Roundabout.

The length of the northbound entry slip road at Coryton Interchange that extends from a point 120 metres north of its junction with the circulatory carriageway of Coryton Roundabout to its nosing with the main A470 northbound carriageway.

The entire length of the northbound exit slip road at Taffs Well Interchange.

The length of the northbound entry slip road at Taffs Well Interchange that extends from its nosing with the main A470 northbound carriageway to a point 174 metres south of that nosing.

The entire lengths of the northbound exit and entry slip roads at Nantgarw Interchange.

The entire length of the northbound exit slip road at Navigation Junction, Navigation Park, Abercynon.

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from a point 35 metres south of its junction with the main circulatory carriageway of Abercynon Roundabout to a point 450 metres north of the nosing of the southbound exit slip road at Bridge Street Interchange, Pontypridd.

Y darn o gerbytffordd tua'r de'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 555 o fetrau i'r de o drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Glan-bad, Pontypridd hyd at bwynt 740 o fetrau i'r gogledd o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r de wrth Gyffordd Navigation, Parc Navigation, Abercynon.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Nantgarw.

**ATODLEN 2**
**Terfyn cyflymder 40 mya**

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A4054 Cardiff Road hyd at bwynt 140 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from a point 555 metres south of the nosing of the southbound entry slip road at Upper Boat Interchange, Pontypridd to a point 740 metres north of the nosing of the southbound exit slip road at Taffs Well Interchange.

The entire length of the southbound entry slip road at Navigation Junction, Navigation Park, Abercynon.

The entire lengths of the southbound exit and entry slip roads at Nantgarw Interchange.

**SCHEDULE 2**
**40 mph speed limit**

The length of the northbound entry slip road at Taffs Well Interchange that extends from its junction with the A4054 Cardiff Road to a point 140 metres north of that junction.